# Canllaw ar Gyfathrebu Hygyrch i Weithwyr Proffesiynol




Diben y canllaw hwn ar gyfathrebu hygyrch ydy eich hysbysu chi neu eich mudiad am agweddau cyfathrebu pwysig i'w hystyried wrth ymdrin â phobl gydag anawsterau cyfathrebu. Bydd y canllaw yn ymdrin ag agweddau cyfathrebu wyneb yn wyneb neu gyfathrebu o fath arall.

# Cynnwys

1. Pam fod gwybodaeth y mae pawb yn medru manteisio arni'n bwysig? Tudalen 3

2. Cynhwysiad a Hygyrchedd. Tudalen 5

3. Iaith a therminoleg. Tudalen 6

4. Ffurfiau y mae'n hawdd eu deall. Tudalen 7

5. Ymarfer da ar gyfer gwahanol ffurfiau sy'n hawdd eu deall. Tudalen 10

6. Ymarfer gorau Tudalen 14

7. Adnoddau, gwybodaeth bellach a chyfeirnodau Tudalen 16

Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud y canlynol:
Cynnig Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth dwyieithog.
Bydd hyn yn caniatáu ei bod yn rhwydd i bawb fanteisio ar wybodaeth a chyngor perthnasol ac eglur am holl wasanaethau'r ardal. Bydd yn help hefyd i bobl wneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaeth sydd ei hangen arnyn nhw er mwyn medru byw bywyd i'r eithaf. Bydd staff y gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth croesawgar a chefnogol er mwyn helpu pobl fodloni eu hanghenion mor fuan â phosib. Bydd y gwasanaeth yn un ataliol ynddo'i hun.  Hwb Gwybodaeth a Dysgu – www.ccwales.org.uk/getting-in-on-the-act-hub/

Fersiwn Terfynol
Diweddariad diwethaf Mai 2018
Wedi ei gynhyrchu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyfathrebu – Grŵp Deilliant Conwy 4.
cpp@conwy.gov.uk

# 1. Pam fod cynnig gwybodaeth y mae modd i bawb fanteisio arni'n bwysig?

Mae medru cyfathrebu yn llwyddiannus gyda'r rheiny rydym yn cysylltu gyda nhw yn broses ddwyffordd. Er eich bod yn cynnig gwybodaeth ar sawl wahanol ffurf, mae'n debyg na fydd eich holl grwpiau targed arfaethedig yn derbyn eich neges.

Bydd cynnig gwybodaeth ar wahanol ffurfiau yn caniatáu i fwy o bobl fedru manteisio arni. Ewch ati i lunio posteri, newyddlenni, fideos hyrwyddo a gwefannau yn ogystal â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn ei dro yn gofalu eich bod yn medru rhannu'ch neges gyda chymaint o bobl â phosib. Mae'n bwysig ichi ystyried nad ydy un cyfrwng yn gweddu i bawb ac mae gan wahanol grwpiau gyda gwahanol amhariadau ofynion amrywiol.

Fel unigolyn neu fudiad, does dim disgwyl ichi fod yn arbenigwyr ar wahanol amhariadau a chyflyrau iechyd. Fodd bynnag, mae disgwyl ichi fod yn ymwybodol o sut i rannu gwybodaeth mewn ffordd effeithiol gyda phawb, a dim ond eich cysylltiadau heb anableddau'n unig.

**Grwpiau o bobl gydag Amhariadau sy'n debygol o wynebu rhwystrau ychwanegol ynghylch cyfathrebu:**

Rheiny gyda nam ar y synhwyrau: Er enghraifft, pobl â nam sylweddol ar y golwg neu sydd ond yn gweld yn rhannol, pobl gyda nam ar y clyw neu'r rheiny gyda nam ar y lleferydd ac iaith.

Nam Corfforol: Er enghraifft, pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn bob amser, pobl sy'n methu cerdded a'r rheiny sydd wedi colli breichiau a/neu goesau.

Nam Meddyliol: Er enghraifft, anableddau neu anawsterau dysgu.

Cyflyrau Iechyd / cronig: Er enghraifft, cyflyrau niwrolegol,cyhyrysgerbydol, cardiaidd neu resbiradol, pobl â chlefyd Parkinson, arthritis rhiwmatoid neu glefyd siwgr, neu bobl sydd wedi cael strôc.


Problemau Iechyd Meddwl: Er enghraifft, pobl sy'n dioddef o orbryder, iselder, anhwylder deubegwn neu ddementia.

Yn ychwanegol at ddwyn i ystyriaeth grwpiau gyda gwahanol namau, mae hefyd yn bwysig dwyn ffactorau eraill, a all fod yn rhwystr rhag medru cyfathrebu yn effeithiol, i ystyriaeth. Ymysg y ffactorau hyn sydd angen eu hystyried, mae dyslecsia, oed darllen unigolyn a'u hiaith ddewisol.

**Os nad ydy person yn medru manteisio ar yr wybodaeth, mae'n debyg mai dyma fuasai'r canlyniad:**

- Ni fyddan nhw'n medru lleisio eu barn neu yn teimlo nad ydyn nhw'n medru rheoli mathau penodol o gyfathrebu.
- Ni fyddan nhw'n ymwybodol o'ch cyfle neu wasanaeth.
- Byddan nhw'n osgoi cyfleoedd, cynigion a gwasanaethau.
- Ni fyddan nhw'n teimlo'n hyderus bod eich mudiad yn cynnig gwasanaeth sy'n gweddu i bawb.
- Ni fyddan nhw'n mynychu digwyddiad, apwyntiad neu asesiad.
- Byddan nhw'n teimlo fod angen iddyn nhw ofyn llawer o gwestiynau – cyn, yn ystod neu ar ôl y digwyddiad, apwyntiad neu asesiad, gan nad ydyn nhw wedi deall yn iawn.
- Ni fyddan nhw'n manteisio i'r eithaf ar y gwaith rhyngweithio ac felly o bosib yn rhoi'r gorau i fanteisio ar wasanaethau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl, gan gynnwys pobl anabl, a llinynnau cydraddoldeb eraill rhag iddyn nhw gael eu gwahaniaethu yn y gweithle a'r modd i fanteisio ar nwyddau a gwasanaethau. Mae pwyslais ar fudiadau i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol a mynd ati i wneud addasiadau rhesymol. Dull ymarfer gorau ydy'r ffordd fwyaf effeithiol i ofalu nad ydych chi fel unigolyn neu fudiad yn fodlon i bobl eich herio.




# 2. Cynhwysiad a Hygyrchedd

Ystyr cynhwysiad ydy'r broses o ymwneud â phob math o bobl, waeth beth ydy eu gallu neu nam. Mae Hygyrchedd yn golygu fod modd i bobl anabl fanteisio ar wasanaethau heb orfod poeni am rwystrau sydd yn / ddim yn gysylltiedig gyda namau.

Diben cyfathrebu cynhwysol ydy rhannu neges y mae'n bosib i bawb fanteisio arno, gydag ystod eang o bobl. Mae'n bosib y bydd datblygu proses rhannu gwybodaeth sy'n hawdd manteisio arno yn golygu cynnig yr wybodaeth ar ffurfiau amgen i fedru manteisio ar y neges (os nad oes modd manteisio ar y neges ar ei ffurf 'safonol').

Er enghraifft, mae yna ystod o symbolau ac arwyddion a all hysbysebu cyfleusterau ac mae modd adnabod llawer ohonyn nhw yn rhyngwladol.



# 3. Iaith a Therminoleg

Mae Iaith a Therminoleg yn medru bod yn rhwystr sylweddol os cân nhw eu camddefnyddio a gall ymddangos fel bod agwedd negyddol tuag at bobl anabl.

**Enghreifftiau o iaith a therminoleg annerbyniol ynghyd ag awgrymiadau ffafriol.**

| **Annerbyniol** ✘ | **Awgrym ffafriol** ✓ |
|---|---|
| Â Handicap / efrydd / methedig / anghenion arbennig | Person / unigolyn anabl |
| Caeth i gadair olwyn / wedi eu cyfyngu i gadair olwyn | Defnyddiwr Cadair Olwyn |
| Â handicap meddyliol / araf | Person / unigolyn gydag anabledd dysgu |
| Abl / Normal | Ddim yn anabl |
| Yn dioddef o … (nam) | (Mae gan y person) … (nam) |
| **Gwallgof** | **Person gydag anawsterau iechyd meddwl** |
| Y byddar | Byddar / trwm eu clyw |
| Y deillion | Dall / rhannol ddall |
| Corrach | Dynan / person byr neu berson â thwf cyfyngedig. |
| Sbastig | Person gyda pharlys yr ymennydd |

Mae bob amser yn ddefnyddiol gwirio'r iaith a therminoleg briodol a chyfredol yma [https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-communication/inclusive-language-words-to-use-and-avoid-when-writing-about-disability](https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-communication/inclusive-language-words-to-use-and-avoid-when-writing-about-disability)

# 4. Ffurfiau y mae'n hawdd eu deall

Bydd cynnig gwybodaeth ar ffurfiau sy'n gweddu i bawb yn gofalu bod mwy o bobl yn medru manteisio ar eich neges. Fodd bynnag, ar adegau, ni fydd y ffordd rydych yn rhannu gwybodaeth yn hawdd i bawb fanteisio arno. Er enghraifft, mae'n bosib na fydd rhywun gyda nam ar eu golwg yn medru darllen ysgrifen fân ar boster, na fydd person sy'n fyddar methu â chlywed llais ar fideo a pherson gydag anawsterau dysgu methu â deall dogfen heb ei fod ar ffurf 'Hawdd ei Ddeall'.

**Rhwystrau tebygol / dichonol yn ymwneud â chyfathrebu ar gyfer pobl gyda gwahanol namau:**

**Pobl gyda nam ar eu golwg:** ysgrifen fân ar ddogfennau, cyferbyniad lliw gwael, ffont aneglur, lluniau gwael a fideos heb sylwebaeth sain.

**Pobl gyda nam ar eu clyw:** fideos heb isdeitlau, cyfarfodydd neu ddigwyddiadau wyneb i wyneb heb gyfieithydd Iaith Arwyddo Prydain yn bresennol, diffyg adnoddau neu luniau mewn cyfarfodydd a phobl yn gor-symud eu gwefus neu yn gorchuddio eu ceg wrth siarad gyda pherson sy'n fyddar neu berson sy'n drwm eu clyw.

**Nam corfforol:** lleoliad posteri ac arwyddion, pwysau dogfennau ar bapur a chynllun gwefan (gormod o gliciadau).

**Nam meddyliol:** iaith gymhleth, ffurf cyflwyno gwybodaeth, cynllun gwefannau a dogfennau, cyferbyniad lliwiau, cyfathrebu hirwyntog neu ddiffyg lluniau addas.

**Cyflyrau Iechyd:** iaith a therminoleg, ffurf a goslef y neges a'r cynllun.

Pan fo modd adnabod y rhwystrau dichonol / tebygol uchod, mae modd mynd ati i addasu'r dulliau cyfathrebu fel bod modd i bawb fanteisio ar eich neges. Fodd bynnag, nid ydy'r enghreifftiau uchod yn golygu na ddylech chi roi'r gorau i gynhyrchu fideos, posteri a gwefannau yn gyfan gwbl, dim ond eich bod yn ymwybodol o'r rhwystrau posib i rai grwpiau penodol.

**Ffurfiau hygyrch:**

- Dogfennau Word a PDF hawdd i'w defnyddio / darllen
- Fersiynau sain
- Braille a Moon
- Iaith Arwyddo Prydain
- Ffurfiau 'Hawdd ei Ddeall' a Makaton
- Dolenni clyw
- Print bras
- Neges Testun SMS Symudol
- Isdeitlau
- Ffôn
- Ffôn testun
- Testun i lafaredd / llafaredd i destun
- Gwasanaethau Cyfieithu (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio 'Language Line')

Does dim rhaid ichi gynhyrchu'r holl ffurfiau addas yn fewnol ac fel y soniwyd eisoes, gall rhai mudiadau wedi eu henwi eich helpu gyda cheisiadau. Fodd bynnag bydd medru cynnig technoleg rwydd yn help ichi ofalu bod modd i fwy manteisio ar y dogfennau rydych yn eu cynhyrchu eisoes.

Gallwch ddefnyddio dogfen Word neu destun er mwyn llunio trawsgrifiad o fideo neu sgwrs. Gyda'r rhan fwyaf o brosesyddion geiriau, gallwch gynyddu ffont a dewis o ystod eang o ffont. Hefyd, gallwch newid lliw, ffurf a chyferbyniad lliw y ffont ar ddogfennau ar y cyfrifiadur.

Gallwch gael gafael ar ddarllenwyr sgrin yn rhwydd neu eu lawr lwytho am ddim. Yna, bydd modd i bobl gyda nam ar eu golwg neu nam meddyliol fanteisio ar yr wybodaeth ar lafar. Gall ddarllenwyr sgrin ymdrin ag ystod o ddeunydd digidol felly mae'n ddefnyddiol ychwanegu gwybodaeth yn defnyddio'r nodwedd 'Alt Text'. Gallwch wneud hyn drwy ddiwygio lluniau, siartiau, tablau neu nodweddion eraill yna ychwanegu teitl a disgrifiad yn defnyddio'r adnodd diwygio.

Mae'n debyg y bydd angen ceisio am ffurfiau amgen fel Braille gan fudiadau arbenigol. Mae oddeutu 12,000 o bobl yn defnyddio Braille ym Mhrydain ac fe gaiff Braille ei gynnwys ar arwyddion yn aml erbyn hyn. Bydd y Gwasanaeth Post Brenhinol hefyd yn danfon eitemau Braille am ddim o dan y cynllun 'Erthyglau ar gyfer Pobl

Ddall'. Mae modd manteisio ar wasanaeth cyfarpar sain ac electronig yn ogystal ag adnoddau i'ch helpu gyda'ch symudedd.

Mae oddeutu 125,000 oedolion byddar ym Mhrydain ynghyd ag oddeutu 20,000 o blant. Iaith Arwyddo Prydain ydy dull cyfathrebu cyntaf neu ffafriol rhai pobl. Mae llawer o unigolion sydd ddim yn fyddar yn defnyddio Iaith Arwyddo Prydain hefyd, fel cyfieithwyr neu bobl sy'n dymuno cyfathrebu gyda ffrindiau a theulu.

Mae 'Hawdd ei Ddeall' yn ddull amgen er mwyn helpu pobl gyda nam meddyliol i ddeall gwybodaeth gymhleth. Mae modd byrhau a symleiddio testun ac iaith yn ogystal â chynnig lluniau i gyd-fynd â'r testun. Os nad oes modd i chi gyfieithu dogfen i fod yn un 'Hawdd ei Ddeall' neu os oes costau ychwanegol, yna bydd defnyddio iaith syml ac eglur gyda phenawdau eglur a lluniau priodol yn help.



# 5. Ymarfer da ar gyfer gwahanol ffurfiau sy’n hawdd eu deall

Mae’r adran hon yn ymdrin ag awgrymiadau defnyddiol ichi wrth gynhyrchu gwahanol fathau o ddeunydd gwybodaeth. Mae’n bwysig cofio nad oes angen cynhyrchu pob dogfen mwy nac unwaith. Bydd defnyddio’r wybodaeth ganlynol wrth gynllunio a llunio deunydd yn ei gwneud hi’n haws i fwy o bobl eu deall.

Ym Mhrydain, mae’r mwyafrif o bobl yn darllen o ochr chwith y dudalen i’r ochr dde felly mae eich llygaid yn bwrw golwg ar yr ochr chwith i ddechrau ac yn ei gweld hi’n anoddach gweld testun wedi ei ganoli. Rydym felly yn eich cynghori i osod eich testun ar yr ochr chwith.

Mae pobl yn dysgu darllen yn defnyddio llythrennau bach gyda llythrennau mawr ar ddechrau brawddegau yn unig neu ar gyfer enwau cyffredin. Bydd cynnwys brawddegau llawn mewn llythrennau mawr, ynghyd â phenawdau, teitlau neu eiriau unigol yn ei gwneud hi’n anoddach i bobl ddarllen y testun. Dyma pam mai ysgrifennu ar ffurf brawddegau arferol ydy’r math o ysgrifen gaiff ei ystyried i fod y mwyaf addas.

Mae’n debyg mai maint ffont 12 ydy’r maint lleiaf gall bobl ei ddarllen heb drafferth. Wrth lunio deunydd ‘Hawdd ei Ddeall’, caiff maint ffont 14 ei argymell fel y maint lleiaf a’r maint yma ydy’r maint y mae llawer o bobl gyda nam ar eu golwg yn ei ffafrio.



| | |
|---|---|
| Ni ddylech chi osod testun yn y canol | Fe ddylech chi osod testun ar y chwith |
| Mae'n anodd darllen testun wedi ei unioni oherwydd y bylchau ychwanegol. | Mae testun heb ei unioni gyda bylchau cyfartal yn haws ei ddarllen. |
| Peidiwch â defnyddio ffont *italig* neu danlinellu i dynnu sylw at wybodaeth benodol. | Defnyddiwch ffont **bras,** ffont mwy neu wahanol ffont er mwyn tynnu sylw at wybodaeth benodol. |
| MAE YSGRIFENNU LLYTHRENNAU MAWR YN UNIG YN ANODDACH I'W DDARLLEN. | Defnyddiwch ffurf 'brawddeg arferol' ar gyfer testun sy'n cynnwys llythrennau bach a mawr. |
| Gall ffontiau Seriff fel Times New Roman fynd â sylw rhywun, sy'n ei gwneud hi'n anoddach darllen y testun. | Mae ffontiau San seriff fel Calibri, Arial neu Verdana yn fwy eglur a haws i'w darllen. |
| Peidiwch â defnyddio ffont llai na maint 12. | Fe ddylech chi ddefnyddio maint ffont 12 o leiaf.<br>Ffont maint 14 ar gyfer deunydd Hawdd ei Ddarllen. |

**Lluniau**


Gall lluniau da ac eglur helpu bobl i ddeall eich deunydd yn well. Hefyd maen nhw'n help i gyfleu tymer neu fynegiant penodol neu hyd yn oed tynnu sylw at wasanaethau sydd ar gael sy'n hawdd manteisio arnyn nhw.

Mae lluniau hefyd yn bwysig hyd yn oed i'r rheiny gyda namau sy'n golygu na allan nhw weld neu ddeall llun i ddechrau. Fodd bynnag, fe allan nhw ddehongli'r neges yn eglur yn defnyddio darllenydd sgrin neu ddisgrifiad wedi ei labelu.


Pan fo'n bosib, fe ddylech chi ddefnyddio lluniau o bobl gyda gwahanol namau, o wahanol gefndiroedd a llinynnau cydraddoldeb eraill. Fodd bynnag, cofiwch ofalu fod y lluniau'n rhai o wedd gadarnhaol. Fe ddylai'r lluniau fod yn eglur ac yn berthnasol

yn uniongyrchol i gyfle neu wasanaeth rydych yn eu hysbysebu er mwyn i gymaint o bobl gydag anableddau â phosib weld eich hysbyseb.


Fe allwch chi osod testun am ben llun ond mae'n bosib y bydd yn anodd darllen y testun os ydy cyferbyniad lliw neu raddlliw y llun yn debyg i'r testun. Os bydd lliwiau'r llun a thestun yn debyg, bydd y testun yn llai eglur ac yn annarllenadwy i ddarllenwyr. Bydd defnyddio blychau testun hefyd yn help i ddangos testun yn eglur ac amlygu ffontiau.




Mae Diagramau yn wahanol i luniau. Mae diagramau yn defnyddio symbolau yn lle geiriau neu luniau. Gall diagramau fod yn fuddiol wrth gyfathrebu gyda phobl efo anawsterau dysgu. Dylai'r diagramau fod yn syml ac eglur, yn enwedig o'u cymharu gyda diagramau eraill o ddogfen debyg ac o ffurf debyg o bosib hefyd.




PECS (System Cyfathrebu drwy Gyfnewid Lluniau)




Diagramau ym Mwrdeistref Sirol Conwy

**Lliw**

Mae’r defnydd o liw fel arfer yn annatod wrth rannu gwybodaeth. Mae gan rhai mudiadau neu gyfleusterau liwiau swyddogol neu balet o liwiau i ddewis ohonyn nhw. Mae’r lliwiau hyn yn aml yn cyd-fynd â logo penodol ac yn gofalu fod y deunydd yn hawdd i’r gynulleidfa rydych yn ceisio eu targedu, ac eraill o bryd i’w gilydd, ei ddeall.

Gall defnyddio gormod o liwiau neu liwiau sydd ddim yn cyd-fynd yn dda greu effaith negyddol. Mae’n bosib y bydd cymysgedd o liwiau penodol yn drysu unigolyn a gwneud i’r testun ymddangos yn aneglur neu’n gwbl amhosib i’w ddarllen. Mae’n bosib y bydd sawl lliw mewn safle penodol ar ddogfen yn tynnu sylw darllenydd a mynd â’u sylw oddi ar y neges arfaethedig. Mae’n hynod debygol i hyn fod yn wir ar gyfer person gydag anawsterau dysgu, person gydag iaith gyntaf gwahanol i iaith y testun neu berson gydag oed darllen is na’r oedran ar gyfartaledd.




Enghraifft o ddeunydd marchnata gyda chyferbyniad lliw cryf.

**Cynllun Cyffredinol**

Er mwyn gofalu fod yr wybodaeth yn hawdd ei ddeall, dylai cynllun y ddogfen fod yn eglur a syml. Dylai fod yr wybodaeth wedi ei gosod mewn adrannau eglur ac amlwg gyda bylchau digonol rhyngddyn nhw.

Mae penawdau a theitlau yn hanfodol bwysig er mwyn i bobl fedru chwilio am yr hyn sydd ei angen arnyn nhw a deall yn union beth sydd eu hangen arnyn nhw o'r wybodaeth. Bydd technoleg gynorthwyol fel darllenwyr sgrin yn adnabod penawdau felly mae'n hanfodol eu bod wedi eu llunio'n gywir.

Dylid gosod lluniau mewn dogfennau mewn adrannau pendant  a ni ddylai'r testun orgyffwrdd y llun. Pan fo'n bosib, dylid gosod lluniau ar yr un ffurf mewn dogfennau mwy. Bydd hyn yn help i rai darllenwyr brosesu'r wybodaeth a deall y ddogfen yn well.

Bydd technoleg gynorthwyol yn help i ddarllenwyr sganio lluniau yn ogystal â thestun. Felly fe ddylid cyflwyno'r wybodaeth i'r adnodd 'testun amgen' os mai penawdau ydyn nhw'n unig neu os ydyn nhw'n ddisgrifiad mwy manwl o gynnwys y llun. Mae'n debyg y bydd rhai pobl gyda nam ar eu golwg yn teimlo wedi drysu neu deimlo'n rhwystredig gyda dogfennau sy'n cynnwys lluniau heb 'destun amgen' gan y bydd eu darllenwyr sgrin yn cyflwyno negeseuon 'gwag'.

Mae'n bosib y bydd gan rhai mudiadau ganllawiau ynghylch brandiau sy'n cynghori neu gyfyngu'r awdur i ddefnyddio cynllun penodol. Os nad ydych chi'n credu fod y cynllun yn ddigon eglur a syml, yna fe ddylech chi adolygu hyn yn fewnol.

**Ymarfer da**

Bydd mudiadau yn defnyddio ystod o becynnau meddalwedd i gynhyrchu amrywiaeth o ddogfennau gyda'r bwriad o dynnu sylw eu cynulleidfa arfaethedig. Yn amlach na fyth, mae'n bosib newid ffontiau, cynllun testun, lluniau, lliwiau a chynllun cyffredinol yn gymharol hawdd. Gan ddwyn yr wybodaeth uchod i ystyriaeth, bydd modd ichi ofalu fod eich dogfen yn haws i'w darllen, ac yn fwy effeithiol, sy'n golygu y bydd modd i fwy o bobl ddeall eich deunydd.

# 6. Ymarfer gorau

Bydd mynd ati i ddatblygu polisi cyfathrebu sy’n ystyriol o bawb yn gofalu eich bod chi’n fwy tebygol o fedru ymwneud gyda’r nifer fwyaf o bobl â phosib. Fe ddylech chi ofalu fod eich holl gydweithwyr yn ymwybodol o’r polisi, yn enwedig y rheiny sy’n gyfrifol am lunio dogfennau neu ddeunyddiau cyfryngau. Bydd hyn yn ei dro yn help ichi rannu eich gwybodaeth gyda mwy o bobl a gofalu fod y deunydd yn fwy effeithiol.

Pan fo’n bosib, fe ddylai eich canllaw cyfathrebu hygyrch annog pobl sydd ddim yn rhan o’ch mudiad i gynnig adborth yn ogystal â’r rheiny sy’n rhan o’ch mudiad. Fe ddylech chi fod yn fwy na pharod i dderbyn unrhyw awgrymiadau a’u defnyddio i ddiweddaru ac addasu’r polisi yn y ddogfen yn barhaus.

Dylid gofalu fod dogfennau neu gyfryngau rydych yn eu cynhyrchu yn hawdd eu deall o’r cychwyn cyntaf. Dylid gofalu ei bod hi’n hawdd i bawb ddeall eich gwybodaeth bob amser pan fo’n bosib ac fe ddylech chi benderfynu ar amser a chyllideb cyn mynd ati i lunio’r dogfennau terfynol.

Ni ddylid ôl-ystyried pa mor hawdd i ddeall ydy eich gwybodaeth. Ni fydd gofalu fod modd i bawb ddeall eich dogfennau yn golygu fod gofyn ichi gyfaddawdu eich brand neu ddyluniad. Os mai dylunwyr allanol sy’n cynhyrchu eich deunydd cyfryngau yna cofiwch roi gwybod iddyn nhw pa mor bwysig ydy hi fod eich deunydd yn eglur ac yn hawdd ei ddeall yn ystod y broses dylunio.

Bydd gofalu fod dyluniad eich deunyddiau yn syml a hawdd ei ddeall yn arbed amser, arian ac adnoddau gan y bydd yn llai tebygol y bydd gofyn ichi ail-ddylunio dogfennau neu gynhyrchu fersiynau gwahanol ‘hygyrch’ o’r un ddogfen.

Gall llinellau agoriadol o unrhyw ddogfennau rhannu gwybodaeth gyda chyrff mewnol ac allanol fod yn ddefnyddiol dros ben, dim yn unig i ddenu pobl newydd ond i wella’ch gwasanaeth presennol hefyd. Dylid ystyried unrhyw rwystrau caiff eu hadnabod i fod yn feirniadaeth adeiladol. Os byddwch yn mynd i’r afael gyda nhw yn y dull cywir, bydd yn gyfle i’ch clwb, cyfleuster neu fudiad ofalu bod mwy yn medru manteisio ar eich gwasanaeth a deunydd gwybodaeth.

Mae’n bosib y bu eich mudiad yn rhannu gwybodaeth yn yr un dull ers y cychwyn cyntaf, gan lwyddo’n gymharol dda o bosib. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn golygu mai hwnnw ydy’r ffordd orau o ymwneud â’ch cynulleidfa arfaethedig. Mae gweithio mewn ffordd ragweithiol yn elfen bwysig i’w ystyried bob amser wrth ichi fynd ati i rannu gwybodaeth.

# 7. Adnoddau, gwybodaeth bellach a chyfeirnodau

**Namau Synhwyrol**

- Gweithredu ar Golled Clyw; www.actiononhearingloss.org.uk
- Erthyglau ar gyfer Pobl ddall; www.blindness.org
- Arwyddo Prydain; www.british-sign.co.uk
- Y Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain (Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn flaenorol); www.info@signsightsound.org.uk
- Cymdeithas Plant Byddar Cenedlaethol; www.ndcs.org.uk
- Cyfieithu Remark; Ymgynghoriaeth iaith a chyfathrebu arbenigol; www.remark.uk.com
- RNIB; www.rnib.uk
- Sense Cymru; www.sense.org

**Hawdd ei Ddarllen**

- Hawdd ei Ddarllen Ar-lein; **www.easy-readonline.co.uk**
- Mencap; **www.mencap.org.uk/easyread-video**
- Afasic Cymru; **www.afasiccymru.org.uk**
- Makaton; Diagramau, lluniau; **https://www.makaton.org/**

**Darllenwyr Sgrîn: Enghreifftiau**

- JAWS
- Microsoft
- Apple SIRI

**Adnoddau eraill**

- App Canllaw Cyfathrebu Cyn Ysbyty - Gall unrhywun lawrlwytho'r App am ddim.  Ar gael I iOS, Blackberry a Android:-
    - iOS – chwiliwch am 'PreHospApp'

    - Blackberry – chwiliwch am ‘pre hospital app’
    - Android – chwiliwch am ‘Pre-Hospital Communication App’

- Cerdyn Cadw Ddiogel Cymru; www.north-wales.police/news-and-appeals-keep-safe-cymru-card-introduced
  Mae rhai sydd gyda’r cerdyn yn cael gwybodaeth ynghylch sut I gadw’n ddiogel a sut I gael help trwy’r cynllun pe bai angen. Mae hefyd yn caniatau I ofalwyr, teulu a ffrindiau ddarparu a chasglu gwybodaeth ynghyd a fyddai’n hanfodol I’r heddlu pe bai ar rywun agored I niwed angen cymorth.

- ASD Info Cymru; www.asdinfowales.co.uk/home/
- Llyfryn Parch Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; http://intranet.corp.conwy.gov.uk/cy/Main/Equality-and-Diversity/Respect-Booklet.aspx

**Cyfeirnod**

Mae’r ddogfen hon yn addasiad o ‘Mynediad i bawb: cyfathrebu cynhwysol’ wedi ei gynhyrchu gan Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Lloegr.

www.efds.co.uk

http://www.efds.co.uk/resources/case_studies/2697_access_for_all_efds_inclusive_communications_guide

**Iaith a Therminoleg**

Swyddfa ar gyfer materion yn ymwneud ag Anableddau: https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-communication/inclusive-language-words-to-use-and-avoid-when-writing-about-disability